**CYNGOR CYMUNED LLANGERNYW**
***LLANGERNYW COMMUNITY COUNCIL***

Cynhaliwyd Cyfarfod o'r Cyngor Cymuned nos Fercher Hydref 23ain 2013 am 7.30 yh yng Nghanolfan Bro Cernyw

Ymddiheuriadau: Gwydion Jones, Elen Haf Edwards, Ifor Edwards, Tecwyn Evans

Presennol: Gwyn Williams (Cadeirydd), Ann Vaughan, Diane Roberts, Gwynfor Davies, Ian Griffith, Emlyn Williams, Cyngh Dilwyn O Roberts a'r Clerc.

Croesawyd bawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd a rhoddodd groeso i PCSO Ray Elliott o Lanrwst sydd yn cydweithio â Dan Owen yn ein hardal. Diolchwyd iddo am ddod atom i gyflwyno ei hun.

17.1 DATGAN CYSYLLTIAD – rhoddwyd cyfle i aelodau ddatgan cysylltiad ag eitem ar yr Agenda.

17.2 COFNODION – derbyniwyd cofnodion cyfarfod Medi 25ain fel rhai cywir.

17.3 CEISIADAU CYNLLUNIO – daeth cais i law wedi i'r Agenda gael ei gwblhau ac anfonodd y Clerc wybodaeth am hyn i'r aelodau drwy e-bost a rhoi ychwanegiad i'r Agenda yn y pentrefi.

17.4 IWRWG AR WAL Y FYNWENT – roedd yr iwrwg yn rhan yr Eglwys a rhan y Cyngor o'r wal ond PENDERFYNWYD i'w adael ar hyn o bryd ac i gadw golwg arno. Roedd y Clerc wedi sôn am hyn wrth swyddogion Eglwys San Digain.

17.5 ADOLYGIAD O FFINIAU CYNGHORAU CYMUNED YNG NGHONWY – yn ôl yr adolygiad byddai Pandy Tudur yn colli un cynghorydd. PENDERFYNWYD i anfon y sylwadau canlynol:
a) i nodi bod y manylion am Bandy Tudur yn anghywir ac nad oedd sedd wag yn y ward
b) bod y ward yn wledig iawn a bod llawer o waith teithio o un pen i'r llall – canran fechan o boblogaeth Pandy Tudur sy'n byw yn y pentref a'r rhan fwyaf yn byw y tu allan
c) bod y boblogaeth yn ardal y Cyngor yn agos iawn at 1000 a oedd yn cyfiawnhau cael 11 cynghorydd
ch) mae gwaith y cynghorwyr cymuned yn hollol wirfoddol – does neb yn hawlio arian. Nid yw'n costio mwy i gael 11 cynghorydd yn hytrach na 10.

17.6 PROSIECT TAITH Y PERERINION – deallwyd bod swyddogion Sir Conwy yn edrych i mewn i'r datblygiadau. PENDERFYNWYD i wahodd Suryiah Evans i'r cyfarfod nesaf i glywed am y datblygiadau diweddaraf ac i wahodd swyddogion o Gonwy hefyd, megis Elen Edwards neu Ann Lloyd Williams.

17.7 CEISIADAU CYNLLUNIO
17.7.1 CAIS RHIF 0/40172 Adeiladu estyniad dros bwll pysgod yn Tan y Ffordd, Llangernyw gan Mrs Karen Johnson. PENDERFYNWYD i wrthwynebu'r cais am y rhesymau canlynol:
a) nid yw'r estyniad yn ffitio mewn gyda'r tai eraill yn yr ardal
b) mae'r adeilad yn edrych yn fawr iawn
c) onid allan ddylai pysgod fod ac nid o dan do?

17.7.2  CAIS RHIF 0/40207 Ailwampio ac ymestyn tanc slyri mewn sied wartheg bresennol ar dir ger Tŷ Mawr Gell, Llangernyw gan Mr Edwin Noble.  PENDERFYNWYD i gefnogi'r cais.

17.8 CEISIADAU ARIANNOL – PENDERFYNWYD i gyfrannu £40 at Urdd Gobaith Cymru Rhanbarth Conwy ond i beidio cyfrannu at Eisteddfod Genedlaethol Cymru Sir Gâr 2014 na Chanolfan Therapi Plant Cymru.

17.9  ADRODDIADAU O GYFARFODYDD
17.9.1 CYFARFOD BLYNYDDOL UN LLAIS CYMRU – cafwyd adroddiad o'r Cyfarfod a'r Gynhadledd yn Llanelwedd gan y Cadeirydd.  Cafwyd gwahanol sgyrsiau, yn eu plith aelod o'r Adran Cynllunio Cenedlaethol, gweithiwr gyda ieuenctid a chomisiynydd.  Y teimlad oedd bod cynrychiolaeth isel iawn o'r gogledd  yn bresennol.  Hefyd roedd y cynigion i'w trafod i gyd o'r De.  PENDERFYNWYD ysgrifennu at Un Llais Cymru i fynegi hyn ac i ofyn pryd cynhaliwyd y Gynhadledd yn y Gogledd ddiwethaf a gofyn iddynt a oedd modd denu mwy o gynrychiolwyr o'r Gogledd.
17.9.2  PWYLLGOR RHANBARTH UN LLAIS – cafwyd adroddiad o'r cyfarfod gan Diane Roberts.  Nid oedd yn gyfarfod hir a bydd y cyfarfod nesaf ar Ionawr 22ain.
17.9.3  FFORWM CYNGHORAU CYMUNED A THREF CONWY – bu'r Clerc a'r Cadeirydd yn y cyfarfod ym Modlondeb a mynychodd y Clerc y Cyfarfod i'r Clercod o flaen llaw.  Yn y cyfarfod cyfeiriwyd at ffurflenni ar-lein gwefan Conwy sef ffurflen i aelodau'r cyhoedd anfon cwyn, canmoliaeth neu sylw at y Cyngor; bod fersiwn diwygiedig o Siarter Safonau Gwasanaeth Cwsmer angen ymateb cyn 29 Tachwedd; cafwyd cyflwyniad gan Anna Humphreys o Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu yn absenoldeb y Dirprwy Gomisiynydd.  Bydd y cyfarfod nesaf ar 20fed Ionawr.
17.9.4  CWRS CÔD YMDDYGIAD – mynychodd y Cadeirydd y cwrs yn Llanrwst oedd yn gwrs buddiol iawn.  Derbyniwyd nodiadau'r cwrs a PHENDERFYNWYD eu hanfon i'r aelodau ar e-bost.  Hefyd anfonir allan ddogfen newydd gan yr Ombwdsmon i'r aelodau.

17.10  ARIAN LLIFOGYDD O LANELWY- trafodwyd sut i wario'r £100 a dderbyniwyd yn dilyn cyngerdd a gynhaliwyd yn Llanelwy.  PENDERFYNWYD i feddwl mwy am y peth ac i'w drafod y tro nesaf.

17.11  ARWYDD TWRISTIAETH I NODI'R YWEN HYNAFOL YN LLANGERNYW – derbyniwyd llythyr yn rhoi caniatâd i ymwelwyr barcio ym maes parcio Tafarn yr Hen Hydd yn y pentref fyddai'n helpu'r cais i gael arwydd.  PENDERFYNWYD i holi Cyngor Conwy a fyddai caniatâd i osod arwydd ac i holi a oes modd cael grant o'r Cynllun Datblygu Gwledig.

17.12 SIARTER SAFONAU GWASANAETH CWSMER CONWY – bydd angen unrhyw sylwadau erbyn 29ain Tachwedd.

17.13  GWARIANT CHWARTEROL – cyflwynodd y Clerc gopi o'r gwariant i bob aelod er gwybodaeth.

17.14  DY GYNULLIAD –YMGYNGHORIAD LLYWODRAETH CYMRU Â  PHOBL IFANC – PENDERFYNWYD anfon hwn ymlaen i Aelwyd Bro Cernyw er gwybodaeth.

17.15  CWRS CYNLLUNIO UN LLAIS CYMRU – roedd cynnig i gynghorau unigol drefnu cwrs a gwadd cynghorau eraill.

17.16 NEWYDDION LLYWODRAETH CYMRU I GYNGHORAU CYMUNED – y Clerc i'w anfon i'r aelodau.

17.17 PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL - y clerc i'w anfon i'r aelodau.

17.18 GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU – yr adroddiad i'w hanfon i'r aelodau.

17.19 POST BRENHINOL – roedd teimlad o bryder ynglŷn a dyfodol y Post Brenhinol yn arbennig yng nghefn gwlad a PHENDERFYNWYD cysylltu â David Jones AS i fynegi hyn.

17.20 PLYGU GWRYCH PANDY TUDUR – cafwyd cais am lythyr cefnogaeth i'r gymdeithas ymgeisio am grant i brynu offer megis pabell, offer coginio ac arwyddion. PENDERFYNWYD i anfon llythyr o gefnogaeth.

17.21 MATERION LLEOL
17.21.1 Bydd y Cynghorydd Roberts yn ymchwilio i ddatblygiadau gyda'r Hen Efail yn Llangernyw
17.21.2 'Draig' wedi ei gosod ar ben simdde – oes yna reolau ynglŷn a hyn mewn ardal cadwraeth.
17.21.3 Angen arwyddion ar lwybr cyhoeddus o Hafodunos am Gerddi Gleision.
17.21.4 Arwydd 'Llansannan' wedi torri ger cyffordd Bont Sylltu.
17.21.5 Y clerc i sôn wrth y Warden am ddiffyg gwres yn Estyniad Canolfan Bro Cernyw.

17.22 BILIAU

| | |
|---|---|
| Cyflog a Chostau Clerc | £803.57 |
| Cyllid y Wlad (TWE) | £1.60 |
| D Evans (Chweched Toriad Mynwentydd) | £300 |
| Gwyn Williams (Costau teithio i Gynhadledd Un Llais) | £90 |
| UHY Hacker Young (Archwilwyr) | £180 |

Daeth y cyfarfod i ben am 10 o'r gloch.

*Cymeradwywyd y Cofnodion Arwyddwyd...Gwyn Williams......... Dyddiad.27/11/13................*

Community Council Meeting was held on Wednesday 23rd of October 2013 at 7.30 pm at Canolfan Bro Cernyw

Apologies : Gwydion Jones , Elen Haf Edwards , Ifor Edwards , Tecwyn Evans

Present : Gwyn Williams (Chair ) , Ann Vaughan , Diane Roberts , Gwynfor Davies , Ian Griffith , Emlyn Williams , Cllr Dilwyn O Roberts & Clerk .

The Chairman welcomed everyone to the meeting and welcomed PCSO Ray Elliott of Llanrwst who works with Dan Owen in our area . He was thanked for attending the meeting.

17.1 DECLARATION - members were given the opportunity to declare a connection with an item on the Agenda .

17.2 MINUTES - The minutes of the meeting of September 25th were accepted as a true record.

17.3 PLANNING APPLICATIONS – A planning application was received after the Agenda was sent out and the Clerk sent this information to members via email and placed an addendum to the Agenda in the villages .

17.4 IVY ON CEMETERY WALL - the ivy was on part of the wall owned by the Church and part of the wall owned by the Community Council.  RESOLVED to observe the situation . The Clerk had mentioned this to officials of St Digain Church.

17.5 BOUNDARY REVIEW OF COMMUNITY COUNCILS IN CONWY - according to the review Pandy Tudur would lose one councilor. RESOLVED to forward the following comments :
a) to note that the details on Pandy Tudur were wrong and that there was no vacancy in the ward
b ) that the ward is very rural and therefore it is far to travel from one end to the other - small percentage of the population living in the village and most live outside
c ) the population of the Council area is very close to 1000 which justified having 11 councilors
d ) work of councilors is entirely voluntary - no one claims any expenses. It does not cost more to have 11 councilors rather than 10 .

17.6 THE PILGRIM’S PATH PROJECT – it is understood that Conwy County officials are looking into the developments . RESOLVED to invite Suryiah Evans to the next meeting to hear about the latest developments and to invite officers from Conwy , such as Elen Edwards or Ann Lloyd Williams .

17.7 PLANNING APPLICATIONS
17.7.1 APPLICATION NUMBER 0 / 40 172 Erection of extension over a fish pond Tan y Ffordd , Llangernyw by Mrs. Karen Johnson . RESOLVED to object for the following reasons :
a) the extension does not fit in with the other houses in the area
b ) the building looks very big

c)  shouldn’t the fish be outside and not indoors?
17.7.2 APPLICATION No. 0 / 40207 Refurbishment and extension of slurry tank in existing cattle shed on land near Ty Mawr Gell , Llangernyw by Mr Edwin Noble . RESOLVED to support the application .

17.8 FINANCIAL APPLICATIONS - RESOLVED to contribute £ 40 towards the Urdd Conwy but not contribute to the National Eisteddfod of Wales Carmarthenshire 2014 nor Children's Therapy Centre Wales.

17.9 REPORTS OF MEETINGS
17.9.1 ANNUAL MEETING ONE VOICE WALES - there was a report of the Meeting and Conference in Builth Wells by the Chairman . There had been various talks, among them members of the National Planning Department , and youth worker and a commissioner . The feeling was that very low representation from the north was present . Also all the proposals came from the South . RESOLVED to write to OVW to express this and to ask when the Conference was held in the North last and asked if they could attract more delegates from the North .
17.9.2 LOCAL COMMITTEE ONE VOICE WALES - there was a report from the meeting by Diane Roberts . It wasn’t a long meeting and the next meeting will be on January 22 .
17.9.3  COMMUNITY AND TOWN COUNCILS CONWY FORUM - Clerk and Chairman attended the meeting at Bodlondeb and the Clerk attended the meeting for the Clerks an hour earlier. At the meeting the chairperson referred to online forms on Conwy website which members of the public use to send a complaint , compliment or comment to the Council ; a revised Customer Service Standards Charter  needed any comments before 29th of November; there was a presentation by Anna Humphreys Office of the Police Commissioner in the absence of the Deputy Commissioner . The next meeting is on 20 January.
17.9.4 CODE OF CONDUCT COURSE - The Chairman attended the course in Llanrwst - course was very beneficial . Course notes were received and RESOLVED to send them to members via e - mail . New document by the Ombudsman will also be sent out to members.

17:10 FLOOD MONEY FROM ST ASAPH - discussed how to spend the £ 100 received following a concert held in St Asaph . RESOLVED to think more about it and discuss it next time.

17:11 TOURISM SIGN TO IDENTIFY THE ANCIENT YEW LLANGERNYW - received a letter giving permission for visitors to park in the car park of the Old Stag Hotel in the village which would help towards making the application for a sign . RESOLVED to ask Conwy Council it there would be permission to place a sign and ask whether a grant is available from the Rural Development Plan .

17:12 CONWY CUSTOMER CHARTER SERVICE STANDARDS - need any comments by 29th November

17.13 QUARTERLY EXPENDITURE - The Clerk presented a copy to each member of the expenditure for information .

DY 17:14 WELSH ASSEMBLY GOVERNMENT CONSULTATION - WITH YOUNG PEOPLE - RESOLVED to forward this to Aelwyd Bro Cernyw for information.

17.15 PLANNING COURSE ONE VOICE WALES - course offered to individual councils to arrange and invite other councils to attend. .

17:16 WALES GOVERNMENT NEWS TO COMMUNITY COUNCILS - The Clerk to send to members.

17:17 WALES INDEPENDENT REMUNERATION PANEL - the clerk to send to members.

17:18 FIRE AND RESCUE SERVICE NORTH WALES - The report to be sent to members .

17:19 ROYAL MAIL - there was a sense of anxiety about the future of the Royal Mail and particularly in rural areas and RESOLVED to contact David Jones MP to express this.

17:20 PANDY TUDUR Hedging - a request for a letter of support to the association applying for a grant to purchase equipment such as tents , cooking equipment and signs . RESOLVED to send a letter of support .

17:21 LOCAL ISSUES
17.21.1 Councillor Roberts will explore developments in the Old Smithy, Llangernyw
17.21.2 ' Dragon-like' ornament placed on top of a chimney - and there are rules about this in a conservation area .
17.21.3 Need of signs on public footpath Hafodunos to Gerddi Gleision.
17.21.4 ' Llansannan ' sign was broken at the Bont Sylltu junction.
17.21.5 The clerk to tell the warden about the lack of heat in Canolfan Bro Cernyw Extension meeting room.

17.22 BILLS
Clerk's Salary and Expenses £ 803.57
Inland Revenue ( PAYE ) £ 1.60
D Evans ( Sixth Cut to Cemeteries ) £ 300
Gwyn Williams ( Travel expenses to One Voice Conference ) £ 90
UHY Hacker Young ( Auditors ) £ 180

The meeting came to an end at 10 o'clock .

Minutes were approved Signed .*Gwyn Williams*....................Date…27/11/13…